BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

# ASESIAD O SAFLEOEDD YMGEISIOL AR GYFER Y CYNLLUN ADNEUO

Tachwedd 2025



## PAPUR CEFNDIR - BP18B

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

## Crynodeb Gweithredol

i. Diben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth am Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Bro Morgannwg, ac asesiad y Cyngor o safleoedd a gyflwynwyd i'w hystyried fel rhan o'r 2il Alwad am Safleoedd Ymgeisiol. Mae'r papur yn rhoi crynodeb o'r asesiad a gynhaliwyd yn unol â Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor.

**Cyflwyno Safle Ymgeisiol**

ii. Mae'r alwad am safleoedd ymgeisiol gan y Cyngor yn elfen graidd o broses y cynllun datblygu, ac yn rhoi cyfle i gymunedau a rhanddeiliaid gynnig safleoedd ar gyfer ystod o ddefnyddiau. Cynhaliwyd galwad ffurfiol gychwynnol am safleoedd gan y Cyngor rhwng 17 Mehefin a 13 Medi 2022 i lywio datblygiad Opsiynau Twf Strategol a Strategaeth a Ffefrir CDLIN y Cyngor. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd 148 o safleoedd ar gyfer ystod o ddefnyddiau gan gynnwys tai, cyflogaeth, ynni adnewyddadwy, mwynau a mannau agored. Roedd cofrestr o'r holl safleoedd a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn ar gael ar wefan y Cyngor. Roedd y safleoedd hyn yn ddarostyngedig i Fethodoleg Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor, a chyhoeddwyd y canfyddiadau ochr yn ochr â Strategaeth a Ffefrir y Cyngor.

iii. Fel rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ar y Strategaeth a Ffefrir, galluogodd y Cyngor hefyd hyrwyddwyr safleoedd, tirfeddianwyr a datblygwyr i gyflwyno safleoedd ymgeisiol i'w hystyried fel rhan o baratoi Cynllun Adneuo CDLIN Bro Morgannwg. Cynhaliwyd yr alwad am safleoedd ymgeisiol ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, a gynhaliwyd rhwng 6 Rhagfyr 2023 a 14 Chwefror 2024. Ar y cam hwn, cynghorwyd hyrwyddwyr safleoedd i ystyried a oedd unrhyw safleoedd yr oeddent am eu cyflwyno yn cydymffurfio â'r Strategaeth a Ffefrir. Lle roedd safleoedd y tu allan i'r Ardal Twf Strategol, cadarnhaodd y Cyngor y byddai'n ystyried y rheini sy'n addas ar gyfer datblygiadau fforddiadwy a arweinir gan dai yn unig.

iv. Derbyniwyd cyfanswm o 38 o safleoedd, ac o'r rhain roedd 13 yn gyflwyniadau cwbl newydd, a 25 yn safleoedd diwygiedig a gyflwynwyd yn flaenorol yn ystod yr alwad gychwynnol am safleoedd.

v. Mae pob safle wedi bod yn destun asesiad yn unol â'r Fethodoleg Safleoedd Ymgeisiol. Mae'r Papur Cefndir yn nodi canlyniadau'r broses asesu, gan gynnwys cyfiawnhad pam mae safleoedd penodol wedi'u dyrannu yn y Cynllun Adneuo a pham nad yw eraill wedi'u symud ymlaen.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

